# *Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed*

Ysgubor y Coed Community Council

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12eg Mai 2016 yn yr Ystafell Haearn, Eglwysfach.**

1. Presennol: Cynghorwyr Swanson (yn y gadair), Goodman, Griffiths a Thomas. Cynghorydd Sir ap Gwynn. Bu'r clerc yn gweinyddu. Hefyd yn bresennol: Dr Ian Taylor.
2. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Jenkins, Hustings a Toland.
3. Ethol cadeirydd ar gyfer 2016/17:
Enwebwyd Cynghorydd Toland gan Gynghorydd Griffiths. Eiliwyd yr enwebiad gan Gynghorydd Thomas. Etholwyd Cynghorydd Toland yn ddiwrthwynebiad. Enwebwyd Cynghorydd Swanson fel is-gadeirydd gan Gynghorydd Thomas. Eiliwyd yr enwebiad gan Gynghorydd Goodman. Etholwyd Cynghorydd Swanson yn ddiwrthwynebiad.
4. Datganiadau o dderbyn swydd: derbyniwyd swydd yr is-gadeirydd gan Gynghorydd Swanson.
5. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer 2015/16 fel rhai cywir.
6. Cafwyd adroddiad ysgrifenedig ar y flwyddyn 2015/6 gan Gynghorydd Toland a gyflwynwyd gan Gynghorydd Swanson. Y prif bwyntiau oedd:
   - Mae'r lle chwarae ar y gweill. Nodwyd bod cyllid ar gael gan y Cyngor Sir ar gyfer prosiectau o'r fath.
   - Mae'r diffibilwr cymunedol mewn lle.
   - Mae'r ymgyrchoedd ar gyfer palmant a mynediad i'r orsaf yn parhau.
7. Cyflwynwyd yr adroddiad ariannol ar gyfer y flwyddyn gan y clerc. Derbyniwyd yr adroddiad gan y cyngor.
8. Cytunwyd byddai'r cyfarfod blynyddol cyffredinol nesaf ar 10eg Mai 2017.

**Minutes of the Annual General Meeting 12th May 2016 held in the Iron Room, Eglwysfach.**

1. Present: Councillor Swanson (in the chair), Goodman, Griffiths a Thomas. County Councillor ap Gwynn. The clerk was in attendance. Also present: Dr Ian Thomas.
2. Apologies: Councillor Jenkins, Hustings a Thomas.
3. Election of Chair for 2016/17:
Councillor Toland was nominated as Chair by Councillor Griffiths. The nomination was seconded by Councillor Thomas and elected unopposed. Councillor Swanson was nominated as vice-chair by Councillor Thomas. The nomination was seconded by Councillor Goodman and Councillor Swanson was elected unopposed.
4. Declarations of acceptance: the position of deputy chair was accepted by Councillor Swanson.
5. The minutes of the annual general meeting for 2015/16 were accepted as a correct account of the meeting.
6. A written report for 2015/16 was received from Councillor Toland and presented by Councillor Swanson: The main points were:
   - The playground is undertaken. It was noted that there is finance available from the County Council for projects of this type.

- The community defibrillator is in place.
- The campaigns for the pavement and access to the station continue.

7. The Clerk gave the financial report for the year.  The report was accepted by the Council.
8. It was agreed that the next AGM would be on 10th May 2017.